

JO MYFYRIWR

1 College Drive
Trefforest
PONTYPRIDD
CF37 2DD

Ffôn: (01443) 333333
Symudol: 777777 777777
jstudent@email.com

Person graddedig dwyieithog brwdfrydig, cryf ei g/chymhelliad a dibynnol gydag ystod eang o sgiliau a'r gallu i weithio'n fanwl, bob amser yn anelu at y safon uchaf posib. Yn brofiadol wrth weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac ar hyn o bryd yn edrych am swydd weinyddol o fewn amgylchedd bach, deinamig a chreadigol.

Addysg

Prifysgol
2015-2018

BA (Anrhydedd) Cymraeg Proffesiynol a Hanes (2:1) ABC

Modiwlau yn cynnwys:

Cymraeg Proffesiynol

Datblygu Sgiliau Cyfieithu

Caethwasiaeth Atlantaidd

1776 – 1888

Taith yr Iaith

Traethawd Estynedig

Menywod yn y Brydain

Fodern

Traethawd estynedig y flwyddyn olaf: *Chwedl neu Realaeith: ymchwiliad o chwedl Meddygon Myddfai a'u lle mewn diwylliant Cymreig.*

Unrhyw ysgol
2008-2015

3 Lefel A - Cymraeg (A) Hanes (B) Seicoleg (D)

9 TGAUs (Gradd A-C) – yn cynnwys Cymraeg, Saesneg Iaith, Mathemateg

PROFIAD PERTHNASOL

Mai 2018

Canolfan y Celfyddydau Unrhywle

Lleoliad Gwaith Marchnata Dyletswyddau yn cynnwys:

- Trefnu ymgyrch bostio aelodaeth fawr yn fisol ar gyfer 2,000 o gylchgronau. Roedd hyn yn cynnwys cydlynu gyda staff blaen tŷ a gwirfoddolwyr cymunedol.
- Cyfrannu at y grŵp cynllunio marchnata ar gyfer digwyddiadau sydd i ddod gan gynnwys syniadau ar gyfer lansiad ffilm leol ac wythnos o berfformiadau dawn.
- Creu arddangosfa hyrwyddo ar gyfer perfformiad theatr yng nghyntedd y ganolfan celfyddydau.
- Ymgymryd â gwaith ffeilio a mewnddodi data aelodaeth yn ddyddiol.
- Ateb y ffôn a chymryd negeseuon gan sefydliadau sy'n cynnwys y wasg yn lleol, cwmnïau teithiol ac argraffwyr.

Meh - Awst 2017

Adran Celfyddydau & Adloniant Cyngor Unrhywle

Cynorthwydd Gweinyddol (dros dro) Dyletswyddau yn cynnwys:

- Ateb y ffôn a delio gydag ystod eang o ymholiadau gan staff yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd
- Teipio llythyrau ac adroddiadau ar ddigwyddiadau ar gyfer y rheolydd tîm.
- Cydlynu gydag argraffwyr a chyflenwyr ar gyfer cyhoeddi deunydd cyhoedduswydd a hyrwyddo.

CYFLOGAETH ARALL

Medi 2015 - presennol Siop ABC
Cynorthwydd Adwerthu Dyletswyddau yn cynnwys:

- Gweini cwsmeriaid a delio gydag ymholiadau ar gyfer stoc ac archebu.
- Sicrhau fod y siop yn cael ei chadw'n daclus a chlir o unrhyw rwystr yn unol â rheolau iechyd a diogelwch.
- Yn addasu'n llwyddiannus i rolau gwaith gwahanol ar fyr rybudd, yn cymryd lle staff pan fod angen.

PROFFIL SGILIAU

TG

Yn hyderus wrth ddefnyddio pob pecyn ar Microsoft Office 2007 – Word, Outlook, Excel, Access a Powerpoint

Gweinyddol

Yn brofiadol mewn ystod o sgiliau clerigol gan gynnwys ffeilio, teipio gohebiaeth, mewnddodi data a gwaith taenlen. Hefyd yn hyderus gyda dyletswyddau derbynfya a ffôn a bob amser yn barod i ymgymryd ag unrhyw dasgau swyddfa ychwanegol pan fo galw.

Cyfathrebu

Hyderus wrth siarad â grwpiau fel a gafodd ei arddangos wrth wneud cyflwyniadau yn ystod fy ngradd a delio gyda chymysgedd eang o bobl yn ystod cyfnod fy nghyflogaeth a phrofiad gwaith. Hefyd yn medru delio gyda sefyllfaoedd a phobl heriol mewn modd tawel a phroffesiynol.

Ieithoedd

Dwyieithog, siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.

Trefniadaeth & Gwaith Tîm

Sgiliau trefnu rhagorol wedi eu datblygu trwy gydol fy ngradd ac yn hanfodol pan yn cyfuno cyflogaeth ran-amser ac astudio llawn amser. Mae gwaith tîm effeithiol wedi bod yn ffactor allweddol yn ystod fy nghyflogaeth lle fod angen cyflawni targedau a dedleinau.

Creadigol & Arweiniad

Bob amser yn edrych i ddatblygu syniadau newydd a datrys problemau yn greadigol fel y dangoswyd yn ystod fy lleoliad gwaith. Cafodd fy syniadau hyrwyddo eu mabwysiadu gan yr adran farchnata yn ystod eu hwythnos 'DanceFest' yn yr Hydref.

DIDDORDEBAU & CYFLAWNIADAU

- Rwyf ar hyn o bryd yn dysgu iaith arwyddion sylfaenol
- 2017 Aelod o dîm dadlau'r Brifysgol yn cystadlu ar lefel rhanbarthol.
- 2014 Gwobr Efydd Dug Caeredin
- Wedi codi £500 ar gyfer elusen yn ddiweddar trwy abseilio nodedig.

GEIRDA

Gall enwau a chyfeiriadau dau ganolwr gael eu darparu ar gais.